# Gweddau ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol



Aline Nibogora yn gweddïo gyda'i theulu yn eu cartref yn Nhalaith Makamba, Burundi.

## Stori Aline

Burundi yw un o wledydd tlotaf y byd yn ariannol. Mae mwy na 70% o'r boblogaeth yn byw mewn tlodi. Gwynebodd Aline Nibogora heriau ychwanegol. Wedi goroesi trais yn y cartref, roedd Aline yn ddigartref, wedi'i gwahanu o'i phlant ac yn byw ar ymylon eithaf tlodi.

## Gwthiwyd Aline at ymylon eithaf goroesi, ond gwthiodd Aline yn ôl

Ymunodd Aline â gweithdy gan hyfforddwyr a ariannwyd gan Cymorth Cristnogol. Dysgodd Aline am Cymdeithas Cynilion a Benthyciadau Pentref (CCBP).
Defnyddiodd Aline benthyciad i adeiladu busnes llwyddiannus. Mae wedi'i haduno â'i thri mab ac yn adeiladu cartref iddynt i gyd. Cadeirydd CCBP yw Aline sy'n rhoi cymorth i 25 teulu yn ei chymuned.

## Gweddi Agoriadol

Dduw ein cysurwr,
Ffynhonnell ein gobaith,
Bydd yn bresennol gyda ni yma heddiw.
Una ni wrth inni addoli.
Rho glustiau inni glywed y Newyddion Da am dy gariad helaeth, trawsnewidiol.
Cyffroa ynon ni lais proffwydol, i'n galluogi i gyhoeddi dyfodiad Dy deyrnas.
Ysbrydola ni i fagu'r hyder i'th wasanaethu Di mewn gair a gweithred, wrth inni, gyda'n gilydd, adeiladu byd yn rhydd o dlodi.
Amen.

## Gweddi Gyffes

Greawdwr Dduw, ti a gwnaed ni a'n trysori ni fel anwyliaid dy greadigaeth.
Fe gyffeswn inni fethu â gofalu am y byd a greasit Ti. Rydyn ni wedi llygru'r ddaear; rydyn ni wedi cymryd a chymryd heb unrhyw ystyriaeth am y dyfodol.
Mae'n calonnau ni wedi'u caledu
Ac wedi cau'n llygaid i gymunedau sydd wedi'u difetha gan yr argyfwng hinsawdd.

O fawredd Dy gariad.
Arglwydd, maddau inni.

Iesu, rwyt ti'n ein galw i garu ein cymdogion, i deithio'r ail filltir.
Fe gyffeswn inni fethu â charu eraill fel yr wyt Ti'n ein caru ni.
Yn rhy aml, rydyn ni wedi anwybyddu pob cri am gyfiawnder.
Rydyn ni wedi sianelu'n hegnïoedd i ddiogelu'r hyn sy'n perthyn i ni
Ac wedi methu rhoi ystyriaeth i anghenion eraill.

O fawredd Dy gariad.
Arglwydd, maddau inni.

Ysbryd y gwirionedd, rwyt yn anadlu doethineb arnon ni ac yn arwain ein ffyrdd.
Fe gyffeswn yr adegau hynny pan fuon ni'n dibynnu arnon ni'n hunain yn unig, fel pe na bai arnom angen amdanoch; Yr adegau hynny y gwnaethon ni wrthod y cymorth a'r cysur mae ein cymdogion yn ei gynnig gan y byddai'n golygu llyncu'n balchder.
Rydyn ni wedi datgan ein hunain yn dir sych, heb y gallu i dyfu ffrwythau cariad, tangnefedd, llawenydd ac addfwynder. Ac eto, er ein holl fethiannau a'n beiau, dwyt Ti byth yn ein gadael.

O fawredd Dy gariad.
Arglwydd, maddau inni.

## Gweddi Wythnos Cymorth Cristnogol 2024

Dduw cariadlon,
Helpa ni i glywed lleisiau'r rhai sy'n dioddef tlodi eithafol.
Mae hi'n anodd gwrando ar straeon am boen. Dangos inni sut y gall tosturi dros eraill ddod ag iachâd a llawnder bywyd i bawb.
Helpwch ni i ddeall ein bod yn un trwy dy gariad, gan dy fod ti'n caru pob bod dynol, y tu hwnt i fesur.

Dduw cariadlon, rwyt ti'n ein galw i adeiladu dy deyrnas o gyfiawnder, trugaredd, a gwirionedd. Nid gorchwyl i rai gwangalon ydy hwn.
Pan fyddwn ni'n colli ein hymdeimlad o bwrpas, llenwa ni â ffydd.
Pan fyddwn ni'n amau neu'n cael ein llethu gan anobaith, llenwa ni â gobaith.
Pan fyddwn ni'n mynd heibio i'n cymydog fel petai ni ddim yn eu nabod,
Llenwa ni â'r cariad hwnnw sy'n ein troi ni'n ôl ac yn ein tywys i estyn cymorth iddyn nhw.

Yn enw Iesu, Amen.

## Gweddi o Eiriolaeth

Diolchwch i'r ARGLWYDD! Mae e mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!

Dduw, rydym yn ddiolchgar am dy gariad; cariad sy'n ein newid, yn troi ein blaenoriaethau ben-i-waered, ac eto, rhywsut, yn ein llunio'n tebycach i'r hyn y dylen ni fod.
Offrymwn ein diolchgarwch am y rhai hynny a ddangosodd addfwynder, gofal a thosturi tuag aton ni;
Y rhai hynny a fu'n gefn inni trwy adegau anodd, gan gynnig gobaith inni.
Gweddïwn dros y rhai hynny a garwn Ac am y rhai hynny inni fethu â'u caru.
Gan gofio profiad Aline, cofiwn y rhai hynny ledled y byd sy'n gwybod beth ydy hi i gael eu trin yn llai na dynol.
Boed inni gydweithio i gynnal urddas pob bod dynol, fel bod neb yn teimlo'n angof.

Dduw, yr Un y mae ei haelioni yn ddiddiwedd,
Clyw ein gweddi.

Dduw, diolchgar ydyn ni am y rhai sy'n ein hysbrydoli gyda'u cryfder, eu dewrder a'u dyfalbarhad.
Gweddïwn dros bobl ledled y byd sy'n cael ei gwthio i'r gyrion gan dlodi eithafol,
Yn ei chael hi'n anodd goroesi.
Gweddïwn yn benodol dros deuluoedd yn Burundi nad oes ganddyn nhw ddigon o fwyd, dŵr glân, na mynediad at ofal iechyd.
Tania ni â thân dy Ysbryd.
Llenwa ni â phenderfyniad digyfaddawd i roi'r diwedd ar warth tlodi. Boed inni glywed galwad, cri, a hanesion y rheini nad oes ganddyn nhw rym.
Boed inni godi'n lleisiau gyda nhw i fynnu byd mwy cyfartal a chyfiawn.

Dduw, yr Un y mae ei haelioni yn ddiddiwedd,
Clyw ein gweddi.

Dduw, rydyn ni'n ddiolchgar am y rhai sy'n ceisio heddwch ac iachâd. Gweddïwn dros bawb sy'n gweithio ar draws rhaniadau a rhwystrau ac yn gweithredu i ddod â therfyn ar wrthdaro treisgar. Boed i arweinwyr gwleidyddol ddefnyddio'u grym yn ddoeth i hyrwyddo achos heddwch.
Gweddïwn yn arbennig dros ...
[Gweddïwch yma am leoedd a phobl a effeithir gan ryfel a thrais.
Efallai yr hoffech gynnwys y canlynol yn eich gweddi:
Heddwch yn y Dwyrain Canol
Diwedd ar y rhyfel yn Wcráin
Y rhai hynny a effeithir gan y gwrthdaro yn Swdan Y gwaith cyfredol o sefydlu heddwch yn Burundi]
Cofiwn am y bywydau a gollwyd yn terfysgoedd.

Dduw, yr Un y mae ei haelioni yn ddiddiwedd,
Clyw ein gweddi.

Dduw, rhown ddiolch am y cariad sydd ar waith. Rhown ddiolch am y rhai fu ac sydd yn pobi cacennau, loncian ac yn casglu amlenni.
Rydym yn ddiolchgar i'r rhai sy'n rhoi eu hamser, egni a'u hadnoddau i godi arian gan gerdded, nofio, seiclo, canu, ffeiriau crefftau, ac am bob math o heriau codi arian.
Gweddïwn y bydd pob un ohonon ni'n cydnabod y doniau sydd ganddon ni i'w rhannu,
Ac y gwelwn ninnau hefyd gyfoeth doniau a thalentau ein cymydog. Helpa ni i gofio nad ydy rhoi terfyn ar dlodi am y pethau y gall arian ei brynu yn unig:
Mae hefyd yn ymwneud â'r byw a'r bywyd llawen rwyt ti'n ei ddymuno i bob un ohonon ni.

Boed inni i gyd fod yn rhydd i fyw bywyd yn llawen, yn ei holl gyflawnder.

Dduw, yr Un y mae ei haelioni yn ddiddiwedd,
Clyw ein gweddi.

Duw, rydyn ni'n ddiolchgar iti addo cysur inni yn ein holl dristwch. Rhoddwn ddiolch dy fod yn addo, pan fod popeth arall o'n cwmpas yn ymddangos fel ei fod yn ymddatod, y bydd Dy gariad yn parhau yn gadarn a diwyro.
Wrth feddwl am bopeth bu i Aline orfod ei hwynebu, gweddïwn drosti hi, ei phlant a'i chymuned.
Gweddïwn dros eraill yr ydym yn ei adnabod sydd yn dioddef.
[Gan gofio'n benodol am... ]
Gweddïwn dros y rhai hynny a gollodd rhywun annwyl.
[Gan gofio'n benodol am... ]
Boed i'r rhai hynny sy'n galaru brofi dy dangnefedd.

Offrymwn y gweddïau hyn yn enw Iesu.
Diolchwch i'r ARGLWYDD! Mae e mor dda aton ni!
Mae ei haelioni yn ddiddiwedd!
Amen.

## Gweddi i Gloi

O Dduw, Tad, Mab ac Ysbryd Glân, mae dy gariad helaeth yn ein bendithio ni; does dim ffiniau i dy ofal a dy dosturi.
Cyflwynwn y rhoddion hyn ac ymrwymo'n hunain i weithredu, Wrth inni ymateb i'th alwad i garu'n gilydd.
Rhoddwn ddiolch am waith allweddol Cymorth Cristnogol Ac am bawb sy'n cefnogi'r gwaith hwn.
Boed i'r rhoddion hyn drawsnewid gobeithion y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi eithriadol.
Dduw cyfiawnder, trugaredd, a heddwch, anfon ni allan i'th wasanaethu di.
Boed i'th gariad rhyfeddol gael ei rannu trwy ein geiriau a'n gweithredoedd, pob dydd o'n hoes.
Amen.

## Bendith

Boed inni ddyfalbarhau mewn ffydd,
Boed inni gamu allan mewn gobaith,
Boed inni weithredu a llefaru mewn cariad, Trwy ras Duw, ein creawdwr, ein hachubwr, a'n cysurwr.
Amen.

## I rhoi neu am fwy o wybodaeth

**Phone:** 020 2084 4646
**Ebost:** cymru@cymorth-cristnogol.org
**Gwefan:** caweek.org

cymorth cristnogol

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525. The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid.
© Christian Aid 10/4/2024